



Anawsterau wrth dalu'ch morgais

Beth sydd angen i chi ei wneud nawr a sut i roi trefn ar bethau

- Y camau i'w cymryd nawr
- Beth yw'ch opsiynau
- Cyngor diduedd am ddim

Wrthi'n eich helpu i reoli eich arian heddiw ac ar gyfer y dyfodol

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gefnogaeth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, tor-perthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: moneyhelper.org.uk/cy

Canllawiau diduedd am ddim
ar-lein | dros y ffôn

Gan y



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**



Yma i'ch helpu chi

Mae'r canllaw hwn ar eich cyfer chi os ydych yn cael anawsterau talu'ch morgais.

Cynnwys

Anawsterau wrth dalu: beth i'w wneud gyntaf	2	Gwiriwch i weld a oes cymorth ariannol ar gael	8
Opsiynau ar gyfer ad-dalu ôl-ddyledion eich morgais	4	Pan fetho popeth arall	9
Opsiynau ychwanegol ar gyfer ôl-ddyledion morgais llog yn unig	6	Os yw rhywun yn ceisio meddiant ar eich cartref	11
Pethau i'w hosgoi	7	Cysylltiadau defnyddiol	12

Gweithredwch nawr i gael eich morgais yn ôl ar y trywydd iawn.

Anawsterau wrth dalu: beth i'w wneud gyntaf

Eich cynllun gweithredu



1. Siaradwch â'ch benthyciwr morgais

Rhowch wybod iddyn nhw pam na allwch chi dalu'ch morgais – ni fydd siarad â nhw yn unig yn effeithio ar eich sgôr credyd. Byddan nhw'n rhoi gwybod i chi pa opsiynau sydd ar gael ac fe fydd yna weithdrefnau yn eu lle ar gyfer delio ag achosion fel eich un chi. Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall eich opsiynau (gweler t4).

2. Lluniwch gyllideb

Rhestrwch eich incwm a'ch costau a blaenoriaethwch eich biliau – parhewch i dalu'r hyn fedrwn ei fforddio. Gweler *Cyngor cyllido ariannol* ar dudalen 3.

3. Cael cyngor am ddim ar ddyledion

Os ydych chi'n poeni bod eich problemau dyled yn mynd allan o reolaeth, neu eisoes wedi methu un taliad neu fwy, gallwch gael cyngor a chymorth diduedd gan sefydliadau sy'n arbenigo mewn problemau ariannol. Peidiwch byth â thalu am wasanaethau cyngor ar ddyledion – dewch o hyd i wasanaeth am ddim yn *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12.

4. Gwiriwch a oes gennych chi yswiriant diogelu taliadau

Os nad ydych yn sicr, ewch trwy eich gwaith papur a gwirio hefyd gyda'ch darparwr. Os oes gennych chi yswiriant felly, a bod eich polisi'n berthnasol i'ch amgylchiadau gwnewch hawliad ar unwaith. Mae'n bosibl y bydd gennych hefyd fathau eraill o yswiriant diogelu, er enghraifft yn erbyn incwm neu golli gwaith, y gellid eu defnyddio ar gyfer eich ad-daliadau morgais.

5. Darganfyddwch a allwch chi gael help gyda thaliadau morgais

Os ydych chi ar rai budd-daliadau, efallai y byddwch chi'n gallu cael benthyciad gan y llywodraeth i helpu i dalu llog y morgais (gweler t8). Gwiriwch pa gymorth y gallech fod yn gymwys i'w gael gyda'n cyfrifiannell Budd-daliadau yn moneyhelper.org.uk/cy/benefits/benefits-calculator

Awgrym da

Byddwch yn ofalus o gwmnïoedd ag enwau camarweiniol sy'n ymddangos fel elusennau dyled ond busnesau ydynt mewn gwirionedd.

Cyngor cyllido ymarferol

- Dechreuwch roi trefn ar bethau heddiw drwy restru eich holl incwm a'ch gwariant. Defnyddiwch ein **Cynlluniwr cyllideb ar-lein** yn moneyhelper.org.uk/cy/budget-planner
- Eich morgais yw eich blaenoriaeth, felly dylai cardiau credyd ac unrhyw fenthyciadau eraill nad ydynt ynghlwm wrth eich cartref gael eu talu ar ôl hyn. Edrychwch ar eich gwariant a rhannwch ef yn filiau hanfodol megis biliau cyfleustodau, Y Dreth Gyngor (neu Ardrethi yng Ngogledd Iwerddon) a biliau nad ydynt yn hanfodol. I ddarganfod pa filiau i'w talu gyntaf, defnyddiwch ein blaenoriaethwr biliau moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/cost-of-living/bill-prioritiser
- Gwiriwch a allwch chi leihau faint rydych chi'n ei wario ar bethau rydych chi'n eu prynu'n aml. Er enghraifft, edrychwch ar eich debydau uniongyrchol a'ch archebion sefydlog a gweld a ydych chi'n talu ffioedd tanysgrifio am wasanaethau nad ydych chi'n eu defnyddio neu nad oes eu hangen arnoch chi.
- Diweddarwch eich cyllideb yn rheolaidd a chyfrifwch faint y gallwch ei dalu i'ch darparwr morgais ac ar filiau hanfodol eraill.

Cofiwch

Os ydych chi eisoes yn cael trafferth, ceisiwch osgoi cymryd benthyciadau eraill neu fynd i fwy o ddyled i ad-dalu'r hyn sy'n ddyledus gennych.

Opsiynau ar gyfer ad-dalu ôl-ddyledion eich morgais

Mae amryw o ffyrdd y gallwch fynd ati i dalu ôl-ddyledion eich morgais. Siaradwch â'ch benthyciwr yn gyntaf a gweld a allwch chi gytuno ar ffordd ymlaen. Rhaid i ddarparwyr benthyciadau eich trin chi'n deg ac ystyried unrhyw gais y byddwch chi'n ei wneud i newid y ffordd yr ydych chi'n talu'ch morgais. Ond nid oes rhaid iddynt dderbyn eich awgrym. Rydym wedi rhestru gwahanol opsiynau isod.

Eich opsiynau	Manteision ac anfanteision
Dechreuwch ad-dalu cyn gynted â phosibl	✓ Mi fydd yn rhatach yn y pendraw. ✗ Gall talu ôl-ddyledion yn gyflym olygu bod gennych lai o arian am ychydig.
Gwnewch daliadau ychwanegol	✓ Bydd ad-dalu ychydig yn fwy na'ch taliadau misol bob mis yn lleihau'ch dyled. ✗ Mae'n costio mwy i chi bob mis – gwnewch yn siŵr eich bod yn medru'i fforddio. ✗ Gall eich benthyciwr morgais ddweud wrthyhch nad ydych chi'n cynnig digon – talwch y swm ychwanegol beth bynnag gan ddweud wrthynt mai dyma'r cyfan rydych yn gallu ei fforddio.
Morgais ad-dalu – gofynnwch i ymestyn cyfnod eich morgais	✓ Bydd hyn yn lleihau taliadau misol. ✓ Gallwch ofyn am newid i log yn unig am chwe mis ✗ Bydd rhaid i chi dalu am gyfnod hirach – efallai i mewn i'ch ymddeoliad. ✗ Gan ystyried y llog ychwanegol, byddwch yn talu mwy am eich cartref yn y pendraw.
Gofynnwch am wyliau talu	✓ Peidiwch â gwneud eich taliadau misol contractiol yn ystod y gwyliau talu. ✗ Mae'n cynyddu cyfnod eich morgais a'r swm y byddwch chi'n ei ad-dalu yn gyffredinol. ✗ Nid yw'n cael ei gynnig gan bob darparwr benthyciadau.

Yn aml gall bod ar ei hôl hi gyda'ch taliadau arwain at daliadau ychwanegol. Golyga hyn y bydd eich dyled yn codi. Felly ewch i'r afael â'r ôl-ddyledion cyn gynted â phosibl.

Eich opsiynau	Manteision ac anfanteision
Morgais llog yn unig – holwch a allwch ad-dalu’ch morgais dros gyfnod hirach	✓ Mae’n bosibl y gallech leihau’r taliadau i mewn i’r polisi gwaddol neu’r cynllun buddsoddi rydych yn ei ddefnyddio i ad-dalu’ch morgais ar ddiwedd y tymor. Dysgwch ragor ar dudalen 6. ✗ Ni fydd ymestyn eich morgais yn lleihau’ch taliadau llog i’r darparwr benthyciadau. ✗ Bydd rhaid i chi dalu am gyfnod hirach – efallai i mewn i’ch ymddeoliad. ✗ Byddwch yn talu fwy am eich cartref yn y pendraw.
Ychwanegwch yr ôl-ddyledion at gyfanswm balans y morgais	✓ Mae hyn yn gwasgaru’r taliadau dros gyfnod y morgais. ✗ Bydd eich taliadau misol yn cynyddu. ✗ Bydd eich morgais yn cynyddu felly byddech yn talu mwy am eich cartref yn y pendraw. ✗ Bydd eich darparwr benthyciadau yn annhebygol o gytuno os nad ydych chi wedi cadw at eich cytundebau yn y gorffennol. ✗ Os yw cyfanswm yr ôl-ddyledion a gweddill y morgais yn dod i fwy na gwerth y tŷ bydd eich darparwr benthyciadau yn debygol o ddweud na.
Holwch a allwch oedi talu’ch ôl-ddyledion am gyfnod	✓ Os gallwch fforddio’r taliadau morgais ond nid yr ôl-ddyledion ar ben, mae hyn yn cadw eich taliadau misol yn wastad. ✓ Os ydych chi wedi gwneud gordaliadau yn y gorffennol, gofynnwch i’ch benthyciwr a allai’r rhain eich cefnogi i wneud taliadau is am gyfnod heb fynd ar ei hôl hi gyda’ch amserlen dalu. ✗ Mae angen i chi ad-dalu’r ôl-ddyledion o hyd ac mae’n bosibl y bydd taliadau arnynt yn cynyddu.



Dydy hi byth yn rhy hwyr i ddechrau delio â’ch dyledion.

Opsiynau ychwanegol ar gyfer ôl-ddyledion morgais llog yn unig

Mae yna rai opsiynau ychwanegol i'w hystyried os oes gennych forgis gwaddol neu un sydd wedi'i gysylltu i fuddsoddiad.

Cymerwch egwyl dros dro o wneud taliadau

Gyda morgais wedi'i gysylltu â chynllun cynilo neu fuddsoddiad, megis polisi gwaddol, efallai y bydd rhaid i chi wneud dau daliad:

- y taliadau llog ar y benthyciad, a'r
- taliadau tuag at eich cynllun ad-dalu (os yw'n berthnasol).

Os na allwch fforddio'r ddau, gofynnwch i ddarparwr eich cynllun a allwch stopio gwneud taliadau am gyfnod.

Bydd rhaid i chi drefnu â'r cwmni sut i wneud i fyny am yr ôl-groniad o daliadau unwaith i chi ailgychwyn eich polisi.

Nid yw pob morgais llog yn unig wedi'i cysylltu â pholisi gwaddol neu gynllun buddsoddi. Efallai y gallwch leihau eich taliadau i mewn i unrhyw bolisi gwaddol neu gynllun buddsoddi ar wahân er mwyn talu eich morgais ar ddiwedd y cyfnod.

Gwerthu neu roi terfyn ar eich polisi gwaddol neu gynllun buddsoddi arall

Os yw'ch buddsoddiad neu'ch gwaddol wedi bod yn rhedeg am nifer o flynyddoedd, gall fod wedi casglu swm rhesymol y gallech ei ddefnyddio i ad-dalu eich ôl-ddyledion. Bydd hyn yn golygu gwerthu neu roi terfyn ar eich polisi neu gynllun.

Bydd rhaid i chi gymryd morgais ad-dalu neu ganfod ffordd arall o sicrhau eich bod yn ad-dalu'r arian a fenthycoch os byddwch yn rhoi terfyn ar eich polisi.

Cyn i chi roi terfyn ar eich polisi gwaddol neu gynllun buddsoddi arall

- Darganfyddwch ba opsiynau sydd ar gael i chi drwy drafod â'ch darparwr benthyciadau a darparwr eich morgais.
- Meddylwch yn ofalus cyn rhoi terfyn ar eich polisi gwaddol yn gynnar oherwydd gall ei werth fod wedi gostwng tipyn.
- Gwiriwch faint byddech yn ei dderbyn oddi wrth eich darparwr gwaddol cyn penderfynu.

Pethau i'w hosgoi

Peidiwch â throï at fenthyciad i dalu'ch dyledion cyn mynnu cyngor

- Gall y benthyciadau yma fod yn ddrud iawn.
- Maen nhw'n aml yn defnyddio'ch cartref fel sicrwydd, sy'n ei roi mewn fwy o berygl os na fyddwch yn cynnal eich taliadau.

Os ydych chi'n ystyried cael benthyciad arall, siaradwch â'ch benthyciwr presennol yn gyntaf.

Peidiwch â chwtogi ar dreuliau hanfodol

Meddylwch yn ofalus cyn i chi stopio talu biliau hanfodol megis biliau cyfleustodau, Treth y Cyngor (Ardrethi yng Ngogledd Iwerddon) ac yswiriant.

- Biliau cyfleustodau – Cadwch lygad ar gynigion ynni yn rheolaidd, a byddwch yn barod i newid os yw prisiau'n dechrau gostwng. Cysylltwch â'ch cyflenwr bob amser os oes angen help arnoch gyda'ch biliau ynni; mae'n ofynnol iddynt weithio gyda chi i gytuno ar gynllun talu y gallwch ei fforddio. Rhaid iddyn nhw hefyd ddweud wrthyh chi am unrhyw grantiau a chynlluniau cymorth sydd ar gael.
- Yswiriant – Gydag yswiriant cynnwys ac yswiriant bywyd, mae'n bwysig pwyso a mesur p'un ai bod gwario swm bach ar y premiwm yn well na'r perygl o fethu trwsio eich cartref neu amnewid eich meddiannau petai rywbeth yn digwydd.

Meddylwch ddwywaith cyn dychwelyd yr allweddï

Meddylwch yn ofalus cyn rhoi'r allweddï yn ôl i'ch darparwr morgais fel eu bod yn gallu gwerthu'r tŷ.

- Ers cyflwyno'r Siarter Morgeisi yn y DU yn 2023, ni all eich eiddo bellach gael ei adfeddiannu o fewn 12 mis cyntaf y taliad cyntaf a fethwyd. Mae hyn yn rhoi amser i chi gael cyngor a dod o hyd i ateb.
- Chi fydd yn gyfrifol am dalu'r morgais hyd nes y bydd yn cael ei werthu.
- Os caiff eich tŷ ei werthu am swm llai na'r hyn sy'n ddyledus, ni fydd eich morgais yn cael ei ad-dalu'n llawn a bydd rhaid i chi dalu'r gweddïll.
- Gall y darparwr ofyn i chi am yr arian hwn hyd at chwe blynedd wedi'r gwerthiant (pum mlynedd yn yr Alban). Os bydd rhywun yn cysylltu â chi ar ôl y chwe blynedd ynglŷn â'r gweddïll, ceisiwch gyngor.
- Gall olygu y bydd cael morgais yn anoddach yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd bod asiantaethau gwirio credyd yn storio gwybodaeth ynglŷn ag adfeddiannau.

Gall asiantaethau cynghori ar ddyled di-dâl roi cymorth i chi, eich helpu i flaenoriaethu eich dyledion a threfnu eich cyllid. Chwiliwch am gynghorydd cyn i chi ystyried rhoi unrhyw allweddï yn ôl yn moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/dealing-with-debt/debt-advice-locator

Gwiriwch i weld a oes cymorth ariannol ar gael

Cymorth gan y Llywodraeth

Gwiriwch i weld a oes gennych hawl i fudd-daliadau'r wladwriaeth neu gynlluniau'r llywodraeth.

- Darganfyddwch pa fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael gan ddefnyddio ein cyfrifiannell Budd-daliadau yn **moneyhelper.org.uk/cy/benefits/benefits-calculator**
- Os oes hawl gennych i dderbyn Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith, gallai'r swyddfa Canolfan Byd Gwaith lleol eich helpu chi gyda'ch taliadau morgais.

Mae'r cymorth a gewch a phryd y bydd yn dechrau yn dibynnu ar ba bryd y cymeroch eich morgais ac am ba mor hir rydych wedi bod yn cael Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith.

Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais (SMI)

Os ydych chi'n berchennog tŷ sy'n derbyn rhai budd-daliadau cysylltiedig ag incwm efallai y byddwch chi'n gallu cael cymorth tuag at daliadau llog ar:

- eich morgais
- benthyciadau a gymeroch ar gyfer atgyweiriadau a gwelliannau penodol ar eich cartref.

Gelwir hyn yn Gymorth ar gyfer Llog ar Forgais ac fe'i cynigir fel benthyciad.

Fel arfer telir SMI yn uniongyrchol i'ch darparwr benthyciadau. Ni allwch gael cymorth tuag at y swm rydych wedi'i fenthycya – dim ond y llog.

Rhaid ad-dalu'r benthyciad yn llawn pan fyddwch chi'n gwerthu'r cartref neu ar eich marwolaeth, oni bai bod y cartref yn trosglwyddo i'ch priod neu'ch partner sifil.

Mae gwybodaeth bellach, opsiynau ar gyfer ad-dalu'r benthyciad ac i ganfod a ydych chi'n gymwys ar **moneyhelper.org.uk/cy/smi**

Cymorth i bensiynwyr

Os ydych chi neu'ch partner wedi cyrraedd oed i fod yn gymwys am Gredyd Pensiwn, gallech fod yn gymwys am fenthyciad SMI i dalu eich taliadau llog ar forgais.

Ewch i weld a allech chi fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn yn **gov.uk/cyfrifiannell-credyd-pensiwn**

Dysgwch ragor am hyn, a chymorth arall, yn **moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/government-help-if-you-cant-pay-your-mortgage**

Pan fetho popeth arall

Os na allwch fforddio eich taliadau morgais a dydych chi ddim yn credu bydd y sefyllfa hon yn newid yn yr hirdymor, efallai byddech yn ystyried gwerthu'ch cartref eich hun.

Gwerthu'ch cartref

Os gallwch ddiweddarau'ch benthyciwr a gwneud popeth posibl i werthu'ch cartref, dylai'ch benthyciwr oedi gweithredu yn eich erbyn a rhoi cyfle teg i chi ei werthu.

- Gwiriwch a yw'ch benthyciwr yn cynnig cynllun Gwerthiant Gwirfoddol â Chymorth (AVS). Mae'n eich cynorthwyo i werthu'r eiddo a gall helpu gyda'r costau ynghlwm wrth werthu.
- Cyn i chi werthu'ch cartref, meddyliwch yn ofalus am ble y byddwch yn byw. Efallai na chewch chi gymorth gan eich cyngor lleol os ydynt yn amau eich bod wedi'ch gwneud yn ddigartref yn bwrpasol.
- Ers cyflwyno'r Siarter Morgeisi yn y DU yn 2023, ni all eich eiddo bellach gael ei adfeddiannu o fewn 12 mis cyntaf y taliad cyntaf a fethwyd.

Gwerthu'ch cartref a'i rentu yn ôl

Gall rhai cwmnïau gynnig eich helpu os ewch i mewn i drafferthion ariannol gydag ad-daliadau eich morgais trwy brynu'ch cartref ac yna'i rentu yn ôl i chi am gyfnod penodol. Gelwir hyn yn gytundeb neu gynllun gwerthu-a-rhentu-yn-ôl.

Peryglon cynlluniau gwerthu-a-rhentu-yn-ôl

Gall gwerthu'ch cartref fel hyn eich galluogi i glirio'ch dyledion ac aros yn eich cartref, ond gofalwch - mae risgiau i'w hystyried:

- byddwch, gan amlaf, yn derbyn llai na gwerth farchnad lawn eich cartref
- efallai bydd dal rhaid i chi adael wedi i gyfnod eich cytundeb rhentu ddod i ben
- efallai y byddwch chi mewn gwell sefyllfa yn ariannol os byddwch chi'n gwerthu'ch eiddo eich hun ac yn rhentu ar y farchnad agored
- gallech ddal gael eich troi allan os torrwyd amodau eich tenantiaeth
- os yw'r person neu'r cwmni a brynodd eich cartref yn mynd mewn i drafferthion ariannol, gall yr eiddo dal gael ei adfeddiannu ac efallai bydd rhaid i chi adael. Dysgwch ragor yn moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/sale-and-rent-back-schemes

Os dewiswch gytundeb gwerthu-a-rhentu-yn-ôl

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn rheoleiddio cwmnïoedd sy'n gwerthu'r cynlluniau yma.

Yn 2024, dangosodd cofrestr yr FCA mai ychydig iawn o gwmnïau a reoleiddir oedd yn cynnig y math hwn o gytundeb. Gwiriwch gofrestr yr FCA bob amser gan na fyddwch wedi'ch diogelu os nad yw'r cwmni wedi'i awdurdodi.

Os ydych yn ystyried cynllun gwerthu-a-rhentu-yn-ôl, meddyliwch yn ofalus cyn dewis yr opsiwn hwn o achos y peryglon posibl sydd ynghlwm.

- Darllenwch ragor am y risgiau a'r dewisiadau amgen posibl yn moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/sale-and-rent-back-schemes
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn delio â chwmni sydd wedi'i reoleiddio fel eich bod yn gallu defnyddio'r gweithdrefnau cwyno os aiff pethau o chwith.
- Defnyddiwch Wiriwr Cwmni'r FCA i weld a yw cwmni wedi'i reoleiddio yn fca.org.uk/firm-checker
- Siaradwch â sefydliad cyngori ar ddyledion di-dâl oherwydd gallant argymhell opsiynau eraill – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12.

Trafferthion morgais: sut i wneud cwyn

Os teimlwch nad yw eich benthyciwr morgais yn delio â'ch achos yn deg, gallwch gwyno.

Os ydych yn anhapus gyda'r ymateb, gallwch fynd â'r achos at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, sy'n gwbl annibynnol a byddant yn ymchwilio mewn i'r gŵyn ar eich rhan ac yn ddi-dâl.

- Am fanylion ar sut i gysylltu â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, gweler *Cysylltiadau defnyddiol* (t12)

Os yw rhywun yn ceisio meddiant ar eich cartref

Dylai'ch darparwr morgais fod yn awyddus i'ch helpu i drafod eich opsiynau a'ch helpu i osgoi colli'ch cartref cyn cyrraedd y cam hwn. Ond mae yna bethau gallech ei wneud o hyd os yw dyddiad wedi'i osod ar gyfer y gwrandawriad llys.

Cyn mynd â chi i'r llys, rhaid i'ch rhoddwr benthyciadau ddangos ei fod wedi:

- ystyried unrhyw gais oddi wrthoch i newid y modd rydych yn talu'ch morgais, ac
- ymateb i unrhyw gynigion a wnaethoch i dalu.

Felly peidiwch â chladdu eich pen yn y tywod ac anwybyddu unrhyw waith papur a anfonir atoch – **nid yw byth yn rhy hwyr i geisio cyngorgan** yr asiantaethau dyled am ddim a mynd yn ôl ar y trywydd iawn (gweler t8).

Hyd yn oed os yw'r darparwr yn cychwyn achos llys yn eich erbyn, ni fyddwch yn colli'ch cartref yn awtomatig. Rhaid i'r darparwr barhau i ymchwilio am i ffyrdd i chi dalu'ch morgais, felly dylech barhau i drafod gyda nhw a thalu cymaint ag y gallwch.

Gallwch gysylltu â'r gwasanaethau hyn i gael help i ddeall y broses llys – efallai y byddwch hyd yn oed yn gallu cael cyngor cyfreithiol am ddim.

- **Cymru a Lloegr:** Shelter, neu chwiliwch am 'Gwasanaeth Cyngori ar Atal Colli Tai'
- **Yr Alban:** Shelter
- **Gogledd Iwerddon:** Housing Rights [Hawliau Tai]

Dewch o hyd i'w manylion cyswllt yn *Cysylltiadau defnyddiol* (t12).

Paratoi ar gyfer y llys

Os gofynnir i chi fynd i'r llys, bydd un o'r cynghorwyr ar ddyled o un o'r sefydliadau a restrir yn *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 12 yn gallu'ch helpu. Gallant helpu i baratoi eich achos ac efallai y gallant eich cynrychioli.

- **Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r gwrandawriad llys.** Os na ewch chi, bydd eich darparwr yn debygol iawn o gael yr hawl i'ch troi chi allan.
- **Cyfrifwch eich cyllideb cyn mynd i'r llys.** Bydd y barnwr am wybod faint allwch fforddio ei ad-dalu. Defnyddiwch ein **Cynlluniwr Cyllideb** i'ch helpu. Dewch o hyd iddo ar-lein yn moneyhelper.org.uk/cy/budget-planner
- **Mynnwch weld swyddog ar ddyletswydd** os nad oes gennych gynghorwr ar ddyledion neu gyfreithiwr yn bresennol. Gallant eich helpu gyda'ch achos ac efallai y gallant eich cynrychioli. Mae eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.
- **Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y canlyniadau o unrhyw gynigion trefniant ad-dalu** gan eich darparwr tu allan i'r llys cyn i chi gytuno iddynt.
- **Cytunwch ar gynllun ad-dalu dim ond os ydych chi'n credu y gallech chi gadw ato** ar hyd gweddill tymor y morgais.

Cysylltiadau defnyddiol

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ewch i ni yn moneyhelper.org.uk/cy
Neu cysylltwch â ni ar:

Ffôn

Arweiniad ar arian

DU: **0800 138 7777**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 3553 2279

Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau

DU: **0800 011 3797**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 7932 5780

Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/moneychat

moneyhelper.org.uk/cy/pensions-chat

WhatsApp

+44 7701 342744

(arweiniad ar arian yn unig)

Ar-lein

moneyhelper.org.uk/cy/contact-us

Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth: moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities

Asiantaethau cyngori ar ddyledion di-dâl

Elusen Dyledion StepChange

Cyngor dienw dros y ffôn ac ar-lein.

Cynlluniau rheoli dyledion heb ffi

a datrysiadau dyledion eraill

0800 138 1111

stepchange.org

Llinell Ddyled Genedlaethol

Cynllun gweithredu wedi'i bersonoli,

yn gyrrinachol ar-lein, i'ch helpu

i ddelio â'ch dyledion.

0808 808 4000

nationaldebtline.org

Cyngor ar Bopeth

Cymorth ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan

gynnwys taflenni ffeithiau a thempledi

llythyron i'w hanfon at eich rhoddwr

benthyciadau.

Lloegr 0800 144 8848

Cymru 0800 702 2020

Yr Alban 0800 028 1456

citizensadvice.org.uk/cymraeg/

AdviceNI

0800 915 4604

adviceni.net

PayPlan

0800 316 1833

payplan.com

Housing Rights [Hawliau Tai]

Cyngor tai os ydych chi'n byw yng

Ngogledd Iwerddon

028 9024 5640

housingrights.org.uk/housing-advice

Shelter

Cael cyngor a chymorth ar gyfer materion sy'n ymwneud â thai fel troi allan ac ôl-ddyledion rhent.

Lloegr: 0808 800 4444

Yr Alban: 0808 800 4444

Cymru: 08000 495 495

sheltercymru.org.uk/cy/

Unwaith i chi ymchwilio i'ch opsiynau gyda'r asiantaethau cyngor ar ddyledion am ddim, efallai y bydddech eisiau rhagor o fanylion am rai o'r opsiynau. Gallwch gael rhagor o gyngor ar faterion penodol o'r ffynonellau hyn.

Cyngor lleol

Bydd eich cyngor lleol yn gallu'ch cyngori ar p'un ai ydych chi'n gymwys i hawlio Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol os ydych chi am werthu'ch cartref ac yna rhentu.

Swyddfa Canolfan Byd Gwaith

Gall eich swyddfa leol ddweud wrthyhych a ydych yn gymwys i gael unrhyw fudd-daliadau – edrychwch ar-lein am fanylion.

Cyfrifiannell budd-daliadau

I gael syniad o ba gymorth neu fudd-daliadau y gallech eu derbyn, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/benefits/benefits-calculator

Os yw eich cartref mewn perygl o gael ei adfeddiannu

Cael help i gael mynediad at gyngor cyfreithiol am ddim neu ddeall y broses llys.

Gwasanaeth Cyngori Atal Colli Tai (Lloegr a Chymru)

Defnyddiwch y Gwasanaeth Cyngori Atal Colli Tai (HLPAS) i chwilio am gyngor cyfreithiol am ddim yn eich ardal.

find-legal-advice.justice.gov.uk/

Nodwch eich cod post a thicio

'Gwasanaeth cyngori atal colli tai'.

Shelter (Yr Alban)

0808 800 4444

scotland.shelter.org.uk

Housing Rights (Gogledd Iwerddon)

028 9024 5640

housingrights.org.uk/housing-advice

Cwynion

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (Financial Ombudsman Service)

Os nad ydych yn hapus gyda'r ymateb gan eich benthyciwr morgais, gallwch wneud cwyn.

0800 023 4567

financial-ombudsman.org.uk

Offeryn dod o hyd i gyngor ar ddyledion

Defnyddiwch ein **Hofferyn lleoli cyngor ar ddyledion** i ddod o hyd i'r gwasanaeth cyngor ar ddyledion sy'n iawn i chi.

Ewch i moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/dealing-with-debt/debt-advice-locator





Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian
ac mae hefyd ar gael yn Saesneg.
I weld ein cyfres lawn o ganllawiau
ac i archebu copïau ewch i
moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides

Cymraeg

Cysylltu â ni

Arweiniad arian a phensiynau **0800 011 3797**


Llun - Gwe 9am i 5pm

Relay UK **18001 0800 011 3797**

Llun - Gwe 9am i 5pm

Ar-lein **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us**

**Helpwr
Arian**



Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2026). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© **HelpwrArian** Ebrill 2026

Cyf: PPYM_Apr26_Ed1_Welsh